**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, 2il o Fai am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Alyn Ashworth, Gaynor Morgan Rees, Robert Parkes, Medwyn Williams & Philip Stevens; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwr Margaret Bowe.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod mis Mai 2017.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ebrill 10fed 2017.**

3. **Materion yn codi:** Dim

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

   (1) 01/2017/0290
   Uned 23 Llwyn Goch, Stad Ddiwidianol Colomendy, Dinbych.
   Codi lloches ysmygwyr yn y cefn.

   (2) 01/2017/0319
   71 Heol y Dyffryn, Dinbych.
   Newid Defnydd o 2 fflatiau i 1 annedd.

   (3) 01/2017/0317
   Fferm Llety, Dinbych
   Codi adeilad amaethyddol i storio peiriannau, gwellt, gwair a stoc ifanc.

   (4) 01/2017/0340
   12 Parc Mytton, Dinbych
   Codi estyniad unllawr yn y cefn.

   (5) 01/2017/0338
   Uned 3 (Poundworld), Yard yr Orsaf, Dinbych.
   Arddangos un arwydd ffasgai wedi'i oleuo'n fewnol.

   (6) 01/2017/0359
   Aldi, Yard yr Orsaf, Dinbych.
   Arddangos 3 arwydd wal, 2 arwydd finyl ac 1 arwydd poster.

## 5. Materion Cynllunio eraill:

Dywedodd y Cyng Medwyn Williams wrth y cynghorwyr tref fod diwygiad i gais cynllunio - diwygiad heb ddeunydd 01/2017/0262
Nid yw Cyngor Tref Dinbych wedi derbyn y diwygiad hwn, fodd bynnag, ar edrych ar y diwygiad mae'n ymddangos bod newidiadau i'r llwybr gwreiddiol o Ffordd y Rhyl.
Roedd ramp yn mynd i fod i gael ei roi i fynediad y safle newydd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, pramiau ac ati ond mae hyn bellach wedi ei ddileu.
Bydd yn rhaid i drigolion sydd am fynd i'r ganolfan siopa o ffordd Rhyl sydd angen mynediad ramp fynd yr holl ffordd o gwmpas, i fyny Stryd y Dyffryn a thrwy Iard yr Orsaf.
Teimlai'r Cynghorwyr bod hyn yn annerbyniol.

Dywedodd y Cyng Gaynor Morgan Rees wrth y cynghorwyr tref o ddigwyddiad a ddigwyddodd yn y ganolfan siopa newydd yn Iard yr Orsaf ar ddydd Llun.
Mam a 2 o blant yn cerdded ar y mynediad i gerddwyr y tu ôl i'r rhwystrau. Lle mae'r rhwystrau yn dod i ben ac yn ymuno gyda'r maes parcio wnaeth un o'r plant redeg o flaen car, yn ffodus ni chafodd neb eu hanafu.
Unwaith eto ar y cynlluniau gwreiddiol roedd llwybr yr holl ffordd i Fargeinion Cartref.
Mae'r cynghorwyr tref yn gofyn i glerc y dref i gysylltu â'r adran gynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar y ddau bwynt hyn.

Cyrhaeddodd y Cyng Philip Stevens am 6.45yh.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.46 o'r gloch.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………